RHONDDA CYNON TAF

**PWYLLGOR CABINET CYNGOR RHONDDA CYNON TAF**
**PWYLLGOR CYNLLUNIO A DATBLYGU**

Cofnodion o rhithwir gyfarfod y Pwyllgor Cynllunio a Datblygu a gynhaliwyd Dydd Iau, 15 Hydref 2020 am 3.00 pm

**Y Cynghorwyr Bwrdeistref Sirol - Pwyllgor Cynllunio a Datblygu Aelodau oedd yn bresennol**:-:-

Y Cynghorydd S Rees (Cadeirydd)

| | |
|---|---|
| Y Cynghorydd G Caple | Y Cynghorydd J Bonetto |
| Y Cynghorydd P Jarman | Y Cynghorydd D Grehan |
| Y Cynghorydd G Hughes | Y Cynghorydd J Williams |
| Y Cynghorydd W Owen | Y Cynghorydd R Yeo |
| Y Cynghorydd D Williams | Y Cynghorydd S Powderhill |

**Swyddogion oedd yn bresennol**

Mr J Bailey, Pennaeth Cynllunio
Mr S Humphreys, Pennaeth y Gwasanaethau Cyfreithiol
Mr A Rees, Uwch Beiriannydd

**Y Cynghorwyr Bwrdeistref Sirol eraill oedd yn bresennol**

| | |
|---|---|
| Y Cynghorydd R Bevan | Y Cynghorydd J Brencher |
| Y Cynghorydd J Edwards | |

## 1 DATGAN BUDDIANT

Yn unol â'r Cod Ymddygiad, gwnaeth Cynghorydd y Fwrdeistref Sirol G Hughes ddatganiad buddiant personol ynglŷn â Chais Rhif: 20/0654/10 - Cadw dec uchel a chodi adeilad allanol yn yr ardd gefn. Bynglo Philden, Stryd Rhys, Trealaw, Tonypandy, CF40 2QQ.
“Rydw i'n adnabod yr ymgeisydd”.

## 2 DEDDF HAWLIAU DYNOL 1998 A PHENDERFYNIADAU RHEOLI DATBLYGU

**PENDERFYNWYD** nodi y dylai Aelodau o'r Pwyllgor, wrth benderfynu ar faterion rheoli datblygu ger eu bron, roi sylw i'r Cynllun Datblygu ac, i'r graddau y bo hynny yn berthnasol, i unrhyw ystyriaethau perthnasol eraill. Rhaid i Aelodau, wrth ddod i benderfyniadau, sicrhau nad ydyn nhw'n gweithredu mewn modd sy'n anghyson â'r Confensiwn Ewropeaidd ar Hawliau Dynol fel y'i hymgorfforwyd mewn deddfwriaeth gan Ddeddf Hawliau Dynol 1998.

## 3 DEDDF LLESIANT CENEDLAETHAU’R DYFODOL (CYMRU) 2015

**PENDERFYNWYD** nodi bod Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015 yn gosod dyletswydd ar gyrff cyhoeddus i gynnal datblygiadau cynaliadwy yn unol â'r egwyddor datblygu cynaliadwy, ac i weithredu mewn modd sy'n anelu at sicrhau y caiff anghenion y presennol eu diwallu heb amharu ar allu cenedlaethau'r dyfodol i ddiwallu eu hanghenion nhw.

## 4 COFNODION

**PENDERFYNWYD** cadarnhau'r cofnodion o gyfarfod y Pwyllgor Cynllunio a Datblygu a gynhaliwyd ar 20 Awst 2020 yn rhai cywir.

**5 NEWID I DREFN YR AGENDA**

Cytunodd y Pwyllgor y byddai'r agenda yn cael ei ystyried mewn trefn wahanol yn unol â'r manylion yn y cofnodion isod.

**6 CAIS RHIF: 20/0654/10**

**Cadw dec uchel a chodi adeilad allanol yn yr ardd gefn. Bynglo Philden, Stryd Rhys, Trealaw, Tonypandy, CF40 2QQ**

Yn unol â'r gweithdrefnau a gafodd eu mabwysiadu, derbyniodd y Pwyllgor y siaradwyr cyhoeddus canlynol a gafodd bum munud yr un i annerch yr Aelodau ynglŷn â'r cynnig uchod:

- Ms Lisa Bruford (Ymgeisydd)
- Ms Kathryn Lee (Gwrthwynebydd)
- Ms Debbie Jones (Gwrthwynebydd)

Arferodd yr Ymgeisydd, Ms Lisa Bruford, yr hawl i ymateb i'r sylwadau a wnaed gan y gwrthwynebydd.

Cyflwynodd y Pennaeth Materion Cynllunio y cais i'r Pwyllgor. Ar ôl trafodaeth, **PENDERFYNWYD** gwrthod y cais yn unol ag argymhelliad y Cyfarwyddwr - Materion Ffyniant a Datblygu.

**7 CAIS RHIF: 20/0843**

**Annedd arfaethedig. Tir rhwng Clwb Rygbi Wattstown a 25 Teras Dan-y-graig, Ynys-hir.**

Siaradodd yr Aelod Lleol, Cynghorydd y Fwrdeistref Sirol J Edwards, nad yw'n aelod o'r Pwyllgor, am y cais gan fynegi ei chefnogaeth o'r datblygiad arfaethedig.

Cyflwynodd y Pennaeth Materion Cynllunio'r cais i'r Pwyllgor ac, yn dilyn trafodaeth, penderfynodd yr Aelodau gymeradwyo'r cais, yn groes i argymhellion y Cyfarwyddwr, Materion Ffyniant a Datblygu. Roedd hyn am eu bod nhw o'r farn na fyddai'r datblygiad arfaethedig yn cael effaith andwyol ar gymeriad nac edrychiad yr ardal gyfagos. Mynegodd yr aelodau bryderon ynghylch sefydlogrwydd y tir y tu ôl i'r datblygiad, a gofynnon nhw am gynnwys amod yn gofyn am adroddiad manwl sy'n asesu'r sefydlogrwydd a'r angen posibl am unrhyw waith adfer a/neu'r angen am gadw strwythur(au) pan fyddai'r mater yn cael ei adrodd yn ôl i'r Pwyllgor; ynghyd ag asesiad o'r goblygiadau o ran y cwrs dŵr y tu ôl i'r safle.

O ganlyniad i hynny, caiff y mater ei ohirio tan y cyfarfod priodol nesaf o'r Pwyllgor Cynllunio a Datblygu fel bod modd derbyn adroddiad gan y Cyfarwyddwr Materion Ffyniant a Datblygu, a gaiff ei lunio drwy ymgynghori â Chyfarwyddwr y Gwasanaethau Cyfreithiol yn ôl yr angen. Bydd yr adroddiad yn tynnu sylw at y cryfderau a'r gwendidau posibl sydd ynghlwm â gwneud penderfyniad yn groes i argymhelliad swyddog, neu unrhyw reswm arfaethedig

neu reswm cynllunio dros wneud penderfyniad o'r fath. Caiff yr adroddiad yma ei ystyried cyn dod i benderfyniad ar y mater.

**8 CAIS RHIF: 20/0118**

**Caniatâd Ardal Gadwraeth ar gyfer newid defnydd adeilad o Swyddfeydd y Cyngor i 20 o fflatiau hunan-gynhaliol preswyl i fyfyrwyr (Sui Generis), gan gynnwys dymchwel rhan o'r adeilad sy'n bodoli eisoes a gwaith cysylltiedig. Yr Hen Lys, Stryd y Llys, Y Graig, Pontypridd, CF37 1LJ**

Siaradodd yr Aelod Lleol, Cynghorydd y Fwrdeistref Sirol J. Brencher, nad yw'n aelod o'r Pwyllgor, am y cais gan fynegi ei phryderon ynglŷn â'r datblygiad arfaethedig.
Cyflwynodd Pennaeth Materion Cynllunio y cais i'r Pwyllgor. Ar ôl trafod y cais, **PENDERFYNWYD** cymeradwyo'r cais yn unol ag argymhelliad y Cyfarwyddwr Materion Ffyniant a Datblygu.

**9 CAIS RHIF: 20/0120**

**Newid defnydd adeilad o Swyddfeydd y Cyngor i 20 o fflatiau hunan-gynhaliol preswyl i fyfyrwyr (Sui Generis), gan gynnwys dymchwel rhan o'r adeilad sy'n bodoli eisoes a gwaith cysylltiedig (Derbyniwyd yr Arolwg Ystlumod a'r Arolwg Adar sy'n Nythu ar 15/07/2020) (Derbyniwyd yr Adroddiad Sŵn ar 05/08/2020), Yr Hen Lys, Stryd y Llys, Y Graig, Pontypridd, CF37 1LJ.**

Siaradodd yr Aelod Lleol, Cynghorydd y Fwrdeistref Sirol J. Brencher, nad yw'n aelod o'r Pwyllgor, am y cais gan fynegi ei phryderon ynglŷn â'r datblygiad arfaethedig.
Cyflwynodd y Pennaeth Materion Cynllunio y cais i'r Pwyllgor. Ar ôl trafod y cais, **PENDERFYNWYD** cymeradwyo'r cais yn unol ag argymhelliad y Cyfarwyddwr - Materion Ffyniant a Datblygu, yn amodol ar yr Amodau a amlinellir yn yr adroddiad.

(**Nodwch:** Ar yr adeg yma, gadawodd Cynghorydd y Fwrdeistref Sirol S. Powderhill y cyfarfod).

**10 CAIS RHIF: 20/0542**

**Cais amlinellol i ddymchwel tŷ tafarn ac adeiladu 8 eiddo preswyl gyda lleoedd parcio (rhai materion wedi'u cadw). Rhydyfelin Sports Bar, Heol y Dyffryn, Rhydfelen, Pont-y-clun, CF37 5ES.**

Cyflwynodd y Pennaeth Cynllunio y cais i'r Pwyllgor a **PHENDERFYNWYD** cymeradwyo'r cais yn unol ag argymhelliad y Cyfarwyddwr Gwasanaeth - Materion Cynllunio yn ddarostyngedig i'r Amodau a nodir yn yr adroddiad a Chytundeb Adran 106 i sicrhau bod un uned yn cael ei sefydlu a'i chynnal fel uned fforddiadwy, a hynny er mwyn bodloni anghenion a nodwyd yn lleol.

(**Nodwch:** Ar y pwynt yma, gadawodd Cynghorydd y Fwrdeistref Sirol W. Owen y cyfarfod.)

**11 CAIS RHIF: 20/0777**

**Adeilad storio a dosbarthu arfaethedig (Defnydd Dosbarth B8) (derbyniwyd**

**y cynlluniau diwygiedig ar 27/08/2020). Tir gyferbyn â Storamove, Ystad Ddiwydiannol Parc Aberaman, Aberaman, Aberdâr**

Cyflwynodd y Pennaeth Materion Cynllunio y cais i'r Pwyllgor. Ar ôl trafod y cais, **PENDERFYNWYD** cymeradwyo'r cais yn unol ag argymhelliad y Cyfarwyddwr - Materion Ffyniant a Datblygu, yn amodol ar yr Amodau a amlinellir yn yr adroddiad.

**12 CAIS RHIF: 20/0885/09**

**Gosod ffenestri to yn y blaen a'r cefn.**
**2 Wesley Cottage, Heol Aberdâr, Abercynon, Aberpennar, CF45 4NP**

Cyflwynodd y Pennaeth Materion Cynllunio y cais i'r Pwyllgor. Ar ôl trafod y cais, **PENDERFYNWYD** cyhoeddi Tystysgrif Cyfreithlondeb unol ag argymhelliad y Cyfarwyddwr Materion Ffyniant a Datblygu, yn amodol ar yr Amodau a amlinellir yn yr adroddiad.

**13 CAIS RHIF: 20/0949/10**

**Estyniad deulawr yn y cefn.**
**27 Stryd Dumfries, Treherbert, Treorci, CF42 5PP**

Cyflwynodd y Pennaeth Materion Cynllunio y cais i'r Pwyllgor. Ar ôl trafod y cais, **PENDERFYNWYD** cymeradwyo'r cais yn unol ag argymhelliad y Cyfarwyddwr - Materion Ffyniant a Datblygu, yn amodol ar yr Amodau a amlinellir yn yr adroddiad.

**14 GWYBODAETH I AELODAU SY'N YMWNEUD Â'R CAMAU GWEITHREDU WEDI'U CYMRYD O DAN BWERAU DIRPRWYEDIG**

**PENDERFYNODD** yr Aelodau dderbyn adroddiad y Cyfarwyddwr Gwasanaeth – Materion Cynllunio mewn perthynas â'r Penderfyniadau Apeliadau Cynllunio a Gorfodi a ddaeth i law, Cymeradwyaethau Penderfyniadau a Gwrthodiadau Dirprwyedig gyda rhesymau, Trosolwg o Achosion Gorfodi a Phenderfyniadau Gorfodi Dirprwyedig ar gyfer y cyfnod 04/09/2020 – 02/10/2020.

**15 MATERION BRYS**

Rhoddodd y Pennaeth Materion Cynllunio gyflwyniad cryno i'r Aelodau ar addasrwydd cynnal ymweliadau safle o dan gyfyngiadau cyfredol Covid-19. Yn dilyn hyn, trafododd yr Aelodau opsiynau amgen er mwyn dal ati i gynnal ymweliadau safle, a chytunwyd y byddai'r Swyddogion yn edrych ar y defnydd o dechnoleg i gynorthwyo gydag ymweliadau safle presennol ac yn y dyfodol. Mewn perthynas â'r ymweliad safle ar gyfer cais 20/0680 (Cofnod 300), cytunodd yr aelodau'n unfrydol y bydd swyddogion yn cael lluniau drôn ac, os credir eu bod yn briodol, lluniau fideo ychwanegol o'r ardal. Bydd y rhain yn cael eu cyflwyno i'r pwyllgor er mwyn mynd i'r afael â'u pryder, yn hytrach na chynnal ymweliad safle ffurfiol.

**Daeth y cyfarfod i ben am 5.00 pm**

**Y Cynghorydd S Rees**
**Cadeirydd.**